

## Uned 9

### Prif Anhwylderau Metabolig

#### Taflen Wybodaeth

##### Cyflwyniad

Anhwylder neu glefyd metabolig yw'r enw a roddir ar grŵp o afiechydon mewn gwartheg a defaid sy'n cael eu hachosi gan anghydbwysedd yn y mewnbwn a roir i mewn i anifail o'i gymharu â'r allbwn disgwylidig

Y fetabolaeth normal sy'n gorweithio.

Fel arfer, mae'r anghydbwysedd yn digwydd mewn amser allweddol ym meichiogrwydd a'r cyfnod llaetha, lle nad ydi'r bwyd mae'r anifail yn ei gael yn ddigon i ofynion y corff. Dyna pam y'i gelwir ambell dro'n glefyd cynhyrchu.

Mae'n bwysig nodi, er ei fod yn cael ei alw'n glefyd, nid oes pathogen i'w gael.

##### Prif Anhwylderau Metabolig

###### Gwartheg

- Hypocalsemia – Clwy'r Llaeth
- Hypomagnesemia – Y Ddera
- Asidosis Rwmen
- Asetonemia
- Syndrom Iau Brasterog

###### Defaid

- Hypocalsemia – Clwy'r Llaeth
- Hypomagnesemia – Y Ddera
- Asidosis Rwmen
- Tocsemia Beichiogrwydd - Clwy'r Eira

##### Nodiadau byr ar Anhwylderau Cyffredin mewn Gwartheg a Defaid

###### 1. Hypocalsemia – Clwy'r Llaeth

Mae **Hypocalsemia** neu 'Clwy'r Llaeth' yn effeithio ar fuchod a defaid, ond y fuches odro sydd fwyaf bregus. Fe'i hachosir gan brinder calsiwm yn y gwaed. Mae'n digwydd yn ystod, neu'n ar ôl bwrw llo pan mae'n rhaid i'r famog addasu i orfod colli llawer o galsiwm yn ei llaeth. Fel arfer, mae'r anifail yn gorwedd i lawr, yn gysglyd, a dim yn ymateb llawer i ysgogiadau. Yn dilyn hyn mae'n colli ymwybyddiaeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ynghyd â pharlys y coesau ôl. Caiff ei drin gyda phigiad o doddiant calsiwm boroglwconad.

###### 2. Hypomagnesemia – Y Ddera

Mae Hypomagnesemia neu 'ddera'r borfa' yn digwydd mewn gwartheg a defaid, ac fe'i hachosir pan na fydd digon o fagnesiwm yn y gwaed. Mae'n digwydd pan na fydd digon o fagnesiwm yn y diet, e.e. mewn porfa sy'n tyfu'n gyflym yn y gwanwyn. Mae'r clefyd yn cael gafael yn gyflym, ac yn aml iawn, y cwbl welwch chi yw anifail marw. Fodd bynnag, os daliwch chi'r clefyd yn gynnar, y driniaeth arferol yw pigiad o fagnesiwm sylffad.

### 3. Asidosis Rwmen

Mae asidosis rwmen yn digwydd pan mae'r anifeiliaid wedi gorfwyta bwydydd startsh fel grawnfwydydd a dwysfwydydd. Mae'n digwydd yn amlach mewn buches odro sy'n cynhyrchu'n dda neu ŵyn pesgi. Mae'n cychwyn fel ysgôth ac yn medru arwain at farwolaeth. Mae'r cynnydd mewn startsh yn achosi anghydbwysedd micro-organebau yn y rwmen. Mae'r rwmen yn mynd yn fwy asidig na'r hyn y dylai fod, ac mae hyn yn achosi llid neu rwmenitis. Mae hyn yn arwain at ddolur rhydd, dadhydradiad ac weithiau marwolaeth.

**Mae'r ddau glefyd canlynol yn digwydd pan nad oes digon o egni yn y diet:**

1. **Asetonemia mewn Gwartheg**
2. **Clwy'r Cyfeb/Tocsemia Beichiogrwydd mewn Defaid**

#### 1. Asetonemia

Mae hwn yn effeithio ar y fuches odro'n bennaf. Mae'n digwydd pan mae'r egni sydd ei angen i gadw'r anifail yn fyw ac i gynhyrchu llaeth yn llawer iawn mwy na mewnbwn bwydydd y fuwch. Canlyniad hyn yw bod stôr o fraster yr anifail yn torri i lawr. Caiff ei nodweddu gan glwcos gwaed isel. Arwyddion o asetonemia yw colli archwaeth at fwyd, y coluddyn yn arafu a syrthni. Rhoddir triniaeth drwy bigiadu'r anifeiliaid er mwyn cynhyrchu mwy o glwcos, ac weithiau trwy fwydo ffynonellau egni eraill trwy'r geg. Fel arfer, mae'r anifail yn ymateb yn dda.

#### 2. Clwy'r Cyfeb/Tocsemia Beichiogrwydd – Clwy'r Eira neu fe'i gelwir yn Cetosis Defeidiog

Mae Clwy'r Cyfeb/Tocsemia Beichiogrwydd neu Clwy'r Eira'n glefyd cyffredin mewn mamogiaid sy'n dioddef o ddiffyg maeth, dan straen, ac yn cario ffoetysau lluosog. Achosir hyn gan ddiffyg egni digonol (glwcos) yn ddiweddar yn y beichiogrwydd. Arwyddion cyntaf clwy'r cyfeb yw iselder, ymddangos fel petaent yn ddall, glaferio a mân gryndod yn y cyhyrau. Fel arfer mae marwolaeth yn dilyn gan fod stôr o fraster yn adweithio'n gyflym ac yn rhyddhau cetonau i'r llif gwaed, a dyma beth sydd yn gwenwyno'r famog. Triniaeth yn y tymor byr fyddai rhoi glwcos trwy'r geg. Gall hwn fod yn ddos 'clwy eira' wedi ei baratoi'n barod neu surop/triog ar ffurf hylif.

#### **Gwartheg:    Syndrom Iau Brasterog**

Er bod hwn yn awgrymu gwartheg tewion, mae'n anghywir. Nid yw gwartheg yn storio gormodedd o fraster yn eu hiau pan maen nhw'n pesgi.

Y gwrthwyneb sy'n gywir. Digwydd iau brasterog pan mae buwch yn torri i lawr gormod o fraster ar gyfer yr iau i'w brosesu'n iawn, felly mae'r iau yn ei droi'n ôl i fraster ac yn ei storio. Fel arfer felly, buwch denau sy'n dioddef o'r syndrom hwn. Mae angen mawr am egni, a hwnnw heb ei gynnwys yn y diet, ac mae'r iau'n torri'r braster i lawr. Weithiau mae cetonau wedi eu gadael i arnofio yn y gwaed ac yn achosi cetosis, sy'n medru gwenwyno'r fuwch.